

**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR
COFNODION Y CYFARFOD MISOL
16.01.2025 @ 7PM
LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN
PONTRHYDFENDIGAID**

1. MATERION PERSONOL A CHROESO'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Elgan Williams bawb i'r cyfarfod.

2. PRESENNOL

Y Cyngh. Mel Briant;
Y Cyngh. Ieuan Davies;
Y Cyngh. Ifan Lloyd Davies;
Y Cyngh. Gareth Edwards;
Y Cyngh. Alun Price Jones;
Y Cyngh. Angharad Price Jones;
Y Cyngh. Richard Jones;
Y Cyngh. Gareth Owen;
Y Cyngh. Elgan Williams &
Eleri Thomas (Clerc).
Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) John Evans.

3. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ymddiheurodd y Cynghorydd Non Jones am ei anallu i fynychu'r cyfarfod.

4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

Fe wnaeth SCCH John Evans gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am ddigwyddiadau:

***Ymddygiad gwrthgymdeithasol / Aflonyddwch:** sero

***Bwrgleriaeth:** 0

*** Difrod troseddol:** 0

***Lladrad:** 0

***Trais / Ymosodiad:** 0

***Twyll/ Sgam –** roedd rhai cyfrifon banc wedi'u rhewi oherwydd ymdrechion twyllodrus i ddwyn arian ar ran sgamwyr.

Asesiad a wnaed: Tîm Troseddau Economaidd.

Dygwyd arian o gyfrif banc ym Mlaenpennal. Adroddwyd gerbron y Tîm Gweithredu Twyll.

Roedd pobl yr ardal wedi derbyn galwadau ffôn Sgamiau Awtomataidd yn ystod Rhagfyr 2024 a galwadau ffôn sgam yn gyffredinol, ar gynnydd.

5. DATGANIAD O DDIDDORDEB PERSONOL A RHAGFARNOL: DIM

6. CADARNHAU COFNODION 21 TACHWEDD 2024

CYNIGIWYD (y Cynghorydd Gareth Owen); **EILIWYD** (y Cynghorydd Ieuan Davies) a **PHENDERFYNWYD** bod cofnodion 21 Tachwedd 2024 yn gofnod cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

7. MATERION YN CODI

7.1 Ardal Chwarae Pantyfedwen

Cysylltwyd â Mr Jim Cowie am gyngor mewn perthynas â'r broses ariannu grantiau. Roedd wedi tynnu sylw at Wobrau'r Loteri Genedlaethol lle gellid dod o hyd i grant o £300- £20,000. Bydd angen cynnwys manylion y gwaith arfaethedig o fewn y Cais e.e. llawr rwber newydd, ffens. Bydd angen manylion cyswllt dau berson o fewn y Sefydliad yn ogystal.

Bydd y Cyngorydd Gareth Owen yn clustnodi sylw i'r mater ac yn adrodd nôl yn y cyfarfod nesaf.

7.2 Diffibrilwyr o fewn y cyffiniau

Carys Aldous Hughes oedd Gwarcheidwad enwebedig y diffibriliwr a leolir ger yr Abaty. I hysbysu Gwenllian Beynon.

7.3 Cofnodi enwau ychwanegol ar Gofeb Ryfel Bont

Y Cyngorydd Richard Jones i ddarganfod pris Plac A5 dur di-staen lle gellir arysgrifio enwau 4 person.

7.4 Cais i osod safle bws yn Ffair Rhos

Roedd y Cyngorydd Ieuan Davies wedi dod o hyd i safle bws addas. Bydd angen prydles ar y tir arfaethedig. Ystyriwyd gweithgareddau codi arian i gwrdd â'r gost.

7.5 Tocio Coeden Onnen ar Las y Pentref: Gwaith ar y gweill – y Cyngorydd Richard Jones.

Adroddodd y Cyngorydd Richard Jones fod angen tocio coed yng nghyffiniau'r parc.

7.6 Dŵr yn tresmasu ar faes parcio'r ysgol: Cyng. Ifan Lloyd Davies i roi sylw i'r mater.

7.7 Gwasanaeth Sul y Cofio – Pontrhydfendigaid – 10.11.2024 am 10.30am. 150 o bobl yn bresennol. I anfon llythyr o ddiolch i'r Parch Aled Lewis, Biwglwr John Jenkins a'r gyn-Gyngorydd Cymuned John Jones am eu cyfraniad gwerthfawr.

7.8 Cinio Blynnyddol: Dydd Gwener 28 Chwefror 2025, Teifi Inn, Ffair Rhos.

8. GOHEBIAETH

8.1 Cyngor Sir Ceredigion, Hyfforddiant Cod Ymddygiad i Gynghorwyr a Chlercod 11.02.2025 drwy Zoom: nodwyd er gwybodaeth.

8.2 AROLWG O ETHOLAETHAU'R SENEDD

Mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru wedi cyhoeddi ei Adroddiad Cynigion Diwygiedig mewn perthynas â'r arolwg o Etholaethau'r Senedd yng Nghymru.

Mae'r Adroddiad wedi'i gyhoeddi a gellir ei weld ar y [gwefan](#).

Byddai'r Comisiwn yn croesawu unrhyw sylwadau ar y Cynigion Diwygiedig. Mae'r cynnod ymgynghori o bedair wythnos yn dechrau ar 17 Rhagfyr 2024 ac yn cau ar 13 Ionawr 2025.

Bydd y Comisiwn yn ystyried yn ofalus unrhyw sylwadau a wneir yn ystod y cyfnod ymgynghori cyn paratoi'r Adroddiad Penderfyniadau Terfynol.

- 8.3 Gwahoddiad: Cynhadledd Plismona Seiliedig ar Dystiolaeth- Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd:** Dydd Mawrth 4 Mawrth 2025: Pencadlys Plismona Dyfed-Powys. Bydd y gynhadledd eleni yn archwilio egwyddorion a chymwysiadau ymarferol plismona yn seiliedig ar dystiolaeth, gan ddangos ei botensial i drawsnewid dulliau a sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau.

8.4 Parthed: CYMRU A DIWRNOD VE 80 - 8 MAI 2025

Gweithgareddau a fydd yn digwydd ar 8 Mai 2025, i ddathlu'r pen-blwydd pwysig hwn, gan ddarparu'r rheini ledled Cymru i dalu eu 'teyrnged' bersonol, grŵp a chymunedol i'r 300,000 a mwy o eneidiau dewr o Gymru a roddodd gymaint o frwydro dros heddwch yr ydym yn ei fwynhau heddiw – "Mewn angof ni chant fod".

CANLLAWIAU I GYMRYD RHAN DYDD VE 80:Yr Arweinlyfr yn amlinellu rhai o'r gweithgareddau amrywiol annogir y gymuned i gymryd rhan ynddynt, yn bennaf goleuo'r Bannau a 'Lamp Lights of Peace' am 9.30pm, gyda'r fflamau o'r ddau yn cynrychioli'r 'golau heddwch' a ddeilliodd o dywyllwch ofnadwy rhyfel yr holl flynyddoedd yn ôl, a aberthwyd miliynau o fywydau i'w gyflawni, (milwrol a sifil), yn ogystal ag annog ein Cenedl i fwyta 'Pysgod a Sglodion' fel rhan o hyn.

CANU ALLAN AR DATHLIAD - 6.30PM: Mae canu clychau eglwys ledled ein byd bob amser wedi bod yn rhan mor bwysig o'n hachlysuron cenedlaethol a rhyngwladol, gan ddathlu a nodi eiliadau unigryw mewn hanes, felly mae'n briodol annog pob Cadeirlan ac Eglwys o bob enwad ledled Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Lloegr, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw, i ganu eu clychau i ddathlu'r hyn a gyflawnwyd ar 8 Mai 1945, am 6.30pm ar 8 Mai 2025.

ADDO I TI FY NGWLAD - 9.30PM: Annogir pawb sy'n cymryd rhan, a'r Genedl gyfan i aros, a chyd-ganu'r emyn anhygoel, dyrchafol ac ystyrlon hon.

Dyma fydd y tro cyntaf mewn hanes i unigolion, corau a chymunedau gael y cyfle unigryw i ddod at ei gilydd ar yr **un foment arbennig hon mewn amser - 9.30pm**, a chyd-ganu'r Emyr Brydeinig hyfryd hon ar gyfer achlysur o'r fath, felly bydd yn siŵr o ddenu diddordeb byd-eang anhygoel gan agweddau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol ar y cyfryngau, yn enwedig gan fod Cymru'n "arwain y byd mewn cân", gyda'i chorau gwych a'i chariad cyffredinol at gerddoriaeth. Bydd yn ofynnol i'r rhai sy'n dymuno cymryd rhan gofrestru eu cyfranogiad. **Penderfynwyd cofrestru cyfranogiad.**

8.5 Diwrnod o Fyfyrdod 2025

Cynhelir Diwrnod Myfyrdod COVID-19 2025 ar ddydd Sul 9 Mawrth 2025.

Bydd yn gyfle i gymunedau ledled y DU ddod at ei gilydd mewn Diwrnod o Fyfyrdod ar gyfer pandemig COVID-19 a chofio'r rhai a gollodd eu bywydau, myfyrio ar aberth llawer yn ystod pandemig COVID-19 a rhoi cyfle i bobl fyfyrio ar eu profiadau o'r pandemig yn y ffordd sy'n gweddu orau iddynt.

- 8.6 Preswlydd: Ystad Maesydderwen:** gofynnwyd pwy oedd yn gyfrifol am Lan yr Afon. I egluro nad oedd y tir dan sylw wedi ei gofrestru - ni all y Cofrestrfa Tir leoli'r perchennog.
- 8.7 Yes Cymru: Llanbedr Pont Steffan a Dyffryn Aeron:** yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor Cymuned i drosglwyddo rheolaeth ac asedau Ystâd y Goron yng Nghymru i bobl Cymru. Mae Yes Cymru'n credu'n gryf y dylai elw Ystâd y Goron gael ei gyfeirio at Gronfa Cyfoeth Sofran Cymru a'i ddefnyddio er budd a chefnogaeth anghenion cymunedau Cymru. **PENDERFYNWYD:** Cynghorwyr i ymateb yn unigol os myn hwynt.
- 8.8 Gohebiaeth arall: Er gwybodaeth yn unig - roedd llawer o negeseuon e-bost wedi'u cyflwyno gerbron Cynghorwyr rhwng cyfarfodydd, yn electronig.**

9. CYNLLUNIO

9.1 Cais Cynllunio: A240922

Lleoliad: Fferm Abaty Fawr, Ffordd yr Abaty, Pontrhydfendigaid, Ystrad Meurig, SY25 6ES.

Cynnig: Tynnu lawr ac ailadeiladu (wal y de) mewn calch, gan ddefnyddio'r un garreg. Gwaredu â phwyntiau calch diffygiol, ail-osod pwyntiau mewn calch a grout (wal ddwyreiniol)

Ymgeisydd: Carys Aldous Hughes.

Sylwadau'r Cyngor Cymuned: Dim gwrthwynebiad.

9.2 Adroddwyd bod CS Ceredigion wedi rhoi caniatâd cynllunio i gyfnewid y Garej (i gynnwys dymchwel y Garej presennol) – Strata Motors, Heol y Bont, Pontrhydfendigaid, Ceredigion, SY25 6EE.

9.3 Parc Teifi: Roedd cynllun i drosi cyfadeilad gwyliau "ariannol anhyfyw" Pontrhydfendigaid yn dai wedi ei gefnogi gan gynllunwyr sir.

Gofynnodd cais cyfarfod 15 Ionawr Pwyllgor Rheoli Datblygu Cyngor Sir Ceredigion, am ganiatâd i newid defnydd Hafotai Parc Teifi, Stryd y Bont, i ddeg tŷ pâr a phum fflat un gwely, a'r olaf yn unedau fforddiadwy.

Awgrymodd datganiad cynllunio nad oedd rhedeg Parc Teifi fel ganolfan wyliau'n unig "yn hyfyw yn ariannol".

"Yn ystod y pedair blynedd diwethaf dim ond un achos oedd, lle bu pob un o'r 10 uned wyliau yn llawn ac roedd hynny oherwydd archeb bloc gan gwmni a fynychodd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron ym mis Awst 2022 - digwyddiad untro yn yr ardal," meddai

"Flwyddyn ar ôl blwyddyn roedd llai o archebion a chostau'n cynyddu i gynnal a chadw'r unedau"

Roedd y datganiad yn nodi mai tua £170,000 oedd gwerth presennol y tai ar y farchnad agored, a'r fflatiau £65,000 i £70,000, y gellir gostwng gan ryw 30%.

Roedd adroddiad swyddogion yn cyfleu nad oedd Cyngor Cymuned Ystrad Fflur yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig, ond ei fod wedi gofyn am gytundeb i sicrhau bod trigolion yn weithwyr Cymreig eu geni ac yn weithwyr allweddol.

Esboniodd y Cyngorydd Sirol Ifan Davies fod yr ymgeisydd wedi cyfarfod i drafod y cynnig gyda'r Cyngor Cymuned ar sawl achlysur ac o'r farn nad oedd y busnes "bellach yn hyfyw" er gwaethaf "ymdrechion gorau" Mr Hughes.

Dywedodd y Cyngorydd Davies wrth aelodau CS Ceredigion bod cais am gymal lleol wedi'i gyflwyno ond nad oedd yn hyfyw, ond bod "cytundeb bonheddw'r" i ffafrio cysylltiadau lleol wedi'i gytuno.

Dywedodd swyddogion CS Ceredigion nad oedd amod blanced ar gyfer pobl lleol yn unig ar unedau'r farchnad agored yn rhan o bolisi cynllunio CS Ceredigion ar hyn o bryd, gyda goblygiadau posib ar gyfer cael morgeisi o gymal o'r fath.

Cymeradwyodd y cynllunwyr, y cais, gydag amodau.

10. CYLLID

- 10.1 Archwilio Cymru; Archwiliad llawn o Gyngor Cymuned Ystrad Fflur 2023-24.**
Cymeradwywyd gan Archwilio Cymru. i hysbysu etholwyr am gwblhad yr Archwiliad. Mae Cyfrifon 2023-24 ar gael ar safle ar y we'r Cyngor Cymuned.
- 10.2 Cyflog y Clerc Tachwedd / Rhagfyr 2024** £238.33 x 2
- 10.3 Plethdorch:** £25
- 10.4 Costau'r Clerc:** £32.70; £30 (gan gynnwys TAW)
- 10.5 Praesept 2025-26. Ystyriwyd Adroddiad y Gyllideb** (Atodwyd). Ar ôl trafod yn ofalus, CYNIGIWDYD (y Cyngorydd Gareth Edwards), ELIWDYD (y Cyngorydd Gareth Owen) a PHENDERFYNWYD cynyddu'r praesept 15% ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf h.y. o £7,574 + £1,136 = £8, 710, a oedd yn cynrychioli £0.08 ychwanegol yr wythnos ar gyfer Talwr Treth Gyngor Band D er budd Cyngor Cymuned Ystrad Fflur. Roedd pawb DROS y cynnig ar wahân i'r Cyngorydd Angharad Jones, a bleidleisiodd yn ERBYN.

11. Tudalennau ar gyfer Facebook: Dim

12. UNRHYW FATER ARALL

- 12.1 Grit / Bin Halen:** i ddarganfod y gost – CS Ceredigion a'r Co-op, Tregaron.
- 12.2 Roedd gwaith diweddar** a wnaed gan *Ddŵr Cymru* ar y Glas wedi golygu bod yr arwydd ger y pot blodau wedi'i symud allan o le. I ofyn i *Ddŵr Cymru* i ddychwelyd yr arwydd i'w safle gwreiddiol.
- 12.3 Penderfynwyd anfon** llythyr at Is-Ganghellor Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan yn gwrthwynebu'r cynnig i symud addysgu israddedig i gampws Caerfyrddin ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd nesaf.
- 12.4 Cyn Gyngorydd Cymuned y Cyng Mair Jones:** wedi dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar y 13.01.2025. Cytunwyd anfon cerdyn ar ran y Cyngor Cymuned gan estyn dymuniadau gorau i Mair ar ei phen-blwydd arbennig.
- 12.5 Tyllau oedd yn** amlwg ar yr heol ar y droad i Ystad Maesydderwen: i hysbysu CS Ceredigion a gofyn iddynt drwsio'r tyllau pellach o fewn y Pentref.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall, daeth y cyfarfod i ben am 8.35pm.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf: Dydd Iau 20 Chwefror 2025 @7pm.

Dyddiad / Dyddiad -----